

Ffurflen Hysbysu ar gyfer Cyfarfod / Digwyddiad Hysbysadwy Prifysgol Aberystwyth Canllawiau

Dylid llenwi'r ffurflen hysbysu ar gyfer cyfarfod / digwyddiad hysbysadwy cyn gynted ag y bydd Trefnydd y Digwyddiad yn pennu bod cyfarfod neu ddigwyddiad sy'n cynnwys siaradwyr allanol yn hysbysadwy, a lle bo modd, **o leiaf 30 diwrnod** cyn dyddiad y cyfarfod neu'r digwyddiad. Dylid llenwi'r ffurflen ar gyfer unrhyw gyfarfod a/neu ddigwyddiad sy'n cynnwys siaradwr/wyr allanol (hynny yw, unrhyw un nad yw'n fyfyrwr nac yn aelod o staff y Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr) sydd wedi'u pennu gan Drefnwyr y Digwyddiad yn "ddigwyddiadau hysbysadwy" yn unol â'r diffiniadau a roddir yn y [Cod Ymarfer ar Ryddid i Lefaru](#). Bwriedir hefyd i ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal oddi ar y campws ond sydd wedi'u trefnu gan neu yn enw'r Brifysgol ddilyn y canllawiau hyn.

Gellir ystyried bod cyfarfod neu ddigwyddiad yn hysbysadwy os oes unrhyw un o'r pump cwestiwn canlynol yn peri ateb cadarnhaol. Mae'r canllawiau isod yn rhoi enghreifftiau o'r mathau o gyfarfodydd neu ddigwyddiadau a allai beri ateb cadarnhaol i'r cwestiynau canlynol. Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr a dylai cydweithwyr sy'n dymuno eglurhad pellach gysylltu â'r Adran Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd: hasstaff@aber.ac.uk.

Gall y rhan fwyaf o'r gwaith diwydrwydd dyladwy yma gael ei wneud trwy wiriadau ffynhonnell agored (e.e. chwiliadau Google) ar siaradwr/wyr a'r sefydliad(au) y maent yn eu cynrychioli.

1. A yw'n debygol na fydd y siaradwr/wyr yn gallu cyrraedd neu adael y cyfarfod neu'r digwyddiad yn ddiogel a/neu a fydd angen trefniadau diogelwch penodol?

Gall yr adran hon fod yn berthnasol i enghreifftiau sy'n cynnwys ond heb fod wedi'u cyfyngu i'r isod:

- Digwyddiadau blaenorol yr oedd y siaradwr/wyr yn bresennol ynddynt ac a fu'n destun amharu sylweddol (e.e. protestiadau, terfysgaeth, heclo, a.y.y.b.).
- Digwyddiadau yn cynnwys siaradwyr a allai fod yn destun diddordeb sylweddol gan y wasg neu o'r tu allan.
- Ffigyrau cyhoeddus o broffil uchel, y bydd eu presenoldeb yn debygol o arwain at bresenoldeb uchel yn y digwyddiad ei hun a'r tu allan iddo, a/neu'n galw am elfen o reoli tyrfa.

2. A yw'r Trefnydd yn ymwybodol o gyfarfodydd neu ddigwyddiadau eraill sy'n cael eu cynnig ac sy'n groestynnol, unrhyw faterion ymarferol yn ymwneud ag iechyd a diogelwch a/neu unrhyw effaith ar yr adnoddau sydd ar gael?

Gall yr adran hon fod yn berthnasol os yw Athroffeydd neu Adrannau Gwasanaeth Proffesiynol yn ymwybodol o ffactorau allanol a allai effeithio ar allu'r Brifysgol i gynnal cyfarfod neu ddigwyddiad yn ddiogel. Gall hynny gynnwys, ond heb fod wedi ei gyfyngu i, achosion o gydweithwyr yn ymwybodol o:

- Ddigwyddiadau neu gyfarfodydd croestynnol eraill fydd yn digwydd ar ddyddiadau neu oriau tebyg, ac a fydd yn cynnwys ystyried pynciau croestynnol, neu sy'n debygol o ddenu mynychwyr â barn neu athroniaeth wrthgyferbyniol.
- Problemau sy'n ymwneud â materion iechyd a diogelwch ymarferol, megis diffyg lle yn y lleoliad, mesurau rheoli annigonol yn cael eu nodi yn yr asesiad risg priodol, a/neu gynllunio brys.

- Rhesymau dros ddiffyg adnoddau, megis cyd-daro â Diwrnodau Agored neu Ymweld, neu ddigwyddiadau a gynhelir y tu allan i oriau busnes craidd y Brifysgol.

Dylai cydweithwyr bennu a yw diffyg adnoddau yn debygol o gael effaith negyddol ar allu'r Brifysgol i gynnal y cyfarfod neu'r digwyddiad yn ddiogel.

3. A yw'r Trefnydd yn ymwybodol o fgygythiadau i darfu ar y cyfarfod neu'r digwyddiad arfaethedig, a allai ddigwydd yn y digwyddiad ei hun neu'r tu allan?

Gall yr adran hon fod yn berthnasol i enghreifftiau sy'n cynnwys ond heb fod wedi'u cyfyngu i'r isod:

- Achosion o Drefnydd/Drefnwyr y digwyddiad yn derbyn, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fgygythiad i darfu ar y cyfarfod neu'r digwyddiad;
- Derbyn bygythiadau gan gyfryngwr, ar lafar, wyneb-yn-wyneb, ar-lein, yn ysgrifenedig, a.y.y.b. a all olygu gweithredu yn y digwyddiad ei hun neu'r tu allan.

Ni ddylai Trefnydd y digwyddiad benderfynu a ellir ystyried bod y bygythiad yn gredadwy, a disgwylir iddo gyflwyno gwybodaeth ynglŷn â phob bygythiad, waeth pa mor fân ydyw.

4. A yw'r Trefnydd yn ymwybodol o unrhyw fgygythiadau i allu'r Brifysgol i sicrhau bod rhyddid i lefaru o fewn y gyfraith yn cael ei ddiogelu ar gyfer y siaradwr/wyr?

Mae Deddf Addysg (Rhif 2) 1986 yn darparu "bydd unigolion sy'n ymwneud â rheoli unrhyw sefydliad... yn cymryd camau sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod rhyddid i lefaru o fewn y gyfraith yn cael ei ddiogelu ar gyfer aelodau, myfyrwyr a chyflogeion y sefydliad a siaradwyr allanol."

Rhaid i gydweithwyr gymryd camau i sicrhau bod yr hawl yma yn cael ei diogelu ar gyfer pob siaradwr, yn ogystal â chydbwysu'r gofyniad hwn â'r Dyletswydd i Atal, a ystyrir yng nghwestiwn 5. Dylid rhoi ystyriaeth gyfartal i'r ddeubeth, a dylai unrhyw gyfarfod neu ddigwyddiad sy'n cael ei gynnal fodloni gofynion y ddwy ddeddfwriaeth.

5. A yw'r Trefnydd yn ymwybodol o unrhyw fgygythiadau i allu'r Brifysgol i sicrhau bod "siaradwyr â barn eithafol a allai ddenu pobl at derfysgaeth" yn cael eu herio yn y digwyddiad, yn unol â'r ddogfen, Prevent Duty Guidance for Higher Education institutions in England and Wales Llywodraeth EM?

Bydd lleiafrif o siaradwyr yn cymeradwyo, cyfiawnhau neu'n canmol athroniaeth a barn grwpiau terfysgol ac eithafol. Lle bydd yr unigolion hynny yn cael llwyfan agored i leisio eu barn eithafol, gallant ennill, trwy gamgymeriad, hygrededd a statws anawdurdodedig a'r risg o ddenu pobl fregus at eu hathroniaeth. Bydd eu barn yn aml yn cynnwys erlid a cham-drin grwpiau lleiafrifol neu eraill sy'n mentro anghytuno â'u hathroniaeth.

Gall dulliau o "herio" gynnwys:

- Gwahodd unigolion neu grwpiau i'r digwyddiad sy'n cynrychioli barn wahanol i'r siaradwr;
- Caniatáu neu hyrwyddo cwestiynau i'r siaradwr gan unigolion neu grwpiau o farn wahanol;
- Sicrhau aelod ychwanegol i'r panel yn y digwyddiad a fydd yn cyflwyno barn amgen.